Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

# Nation Radio

## Cais i newid Fformat

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2016

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 09 Rhagfyr 2016

# Gair am y ddogfen hon

Mae Ofcom yn ymgynghori ynghylch a ddylid cymeradwyo Cais i Newid Fformat gan Nation Radio Limited (‘Nation Radio’), sy’n dal trwydded radio masnachol FM ar gyfer De Cymru, gan ddarlledu fel Nation Radio.

Mae Fformat yr orsaf yn disgrifio’r math o wasanaeth rhaglenni y mae’n rhaid iddi ei ddarparu, ac mae’n rhan o drwydded yr orsaf.

Mae Nation Radio yn dymuno newid ‘Cymeriad Gwasanaeth’ y Fformat sydd wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer yr orsaf o un sy’n mynnu bod y gwasanaeth yn orsaf gerddoriaeth sy’n chwarae “mwyafrif o draciau roc a thraciau â gogwydd roc” i un sy’n gofyn iddi fod yn “orsaf gerddoriaeth i Gymru”. Mae Nation Radio hefyd yn dymuno cynyddu ei ymrwymiad i’r oriau sy’n cael eu gwneud yn lleol o 10 awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener a 4 awr y dydd ar benwythnos i 21 awr bob dydd.

Rydyn ni’n gofyn am safbwyntiau ynghylch y cais. Daw'r ymgynghoriad i ben am 5pm **ddydd Iau 08 Rhagfyr 2016.**

# Cynnwys

| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Manylion a gwybodaeth gefndir | 1 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 4 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 7 |
| 3 | Cwestiwn yr ymgynghoriad | 9 |
| 4 | Cais i newid fformat gan Nation Radio | 10 |
| 5 | Fformat Presennol Nation Radio | 14 |
| 6 | Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yn ardal De Cymru | 15 |

## Adran 1

# Manylion a gwybodaeth gefndir

1.1 Mae Ofcom wedi cael cais i newid Fformat gan Nation Radio Limited, sy'n dal trwydded radio masnachol FM lleol ar gyfer ardal De Cymru, mewn perthynas â'i wasanaeth 'Nation Radio'. Mae gan rhiant gwmni Nation Radio Limited, sef Nation Broadcasting Limited, bum trwydded radio masnachol analog lleol arall yng Nghymru a nifer o drwyddedau radio digidol.

1.2 Lansiwyd yr orsaf yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2007 fel XFM, ond fe'i gwerthwyd gan GCap Media ym mis Mai 2008, a chafodd ei hail lansio fel Nation Radio ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Mae 873,636 o oedolion (15+ oed) yn Nalgylch Mesuradwy'r drwydded.

1.3 Ym mis Chwefror 2010 cytunodd Ofcom, yn dilyn ymgynghoriad, i gais gan Nation Radio i newid 'Cymeriad Gwasanaeth' y Fformat o "*Orsaf Roc Amgen ar gyfer De Cymru, sy'n chwarae genres roc clasurol a modern, gyda sesiynau wythnosol a sylw i artistiaid lleol"* i fod yn "*Orsaf roc fodern yn bennaf ar gyfer pobl rhwng 15 a 43 oed. Bydd genres cydnaws eraill yn ategu'r allbwn, a fydd hefyd yn cynnwys cerddoriaeth gan artistiaid lleol."*

1.4 Ym mis Hydref 2013, cytunodd Ofcom, yn dilyn ymgynghoriad, i gais gan Nation Radio i newid 'Cymeriad Gwasanaeth' y Fformat i fod yn "*Orsaf gerddoriaeth â gogwydd roc sy'n cynnwys sylw i artistiaid lleol."* Yn y newid hwn, cafodd y gofyniad i apelio'n bennaf at bobl rhwng 15 a 43 oed ei ollwng.

1.5 Ym mis Medi 2015, cytunodd Ofcom i gais gan Nation Radio i newid 'Cymeriad Gwasanaeth' y Fformat i fod yn "*Orsaf gerddoriaeth sy'n chwarae mwyafrif o ganeuon roc a chaneuon â gogwydd roc, a chynnwys sylw i artistiaid lleol."*

1.6 Mae Nation Radio nawr yn dymuno newid 'Cymeriad Gwasanaeth' y Fformat i fod yn "*Orsaf gerddoriaeth i Gymru sy'n cynnwys sylw i artistiaid lleol."*

1.7 Ochr yn ochr â'r newid arfaethedig i Gymeriad y Gwasanaeth, mae Nation Radio hefyd yn gofyn am gael cynyddu nifer yr oriau a wneir yn lleol a fydd yn ofynnol dan Fformat yr orsaf o 10 awr o leiaf yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac o leiaf 4 awr ar ddydd Sadwrn a dydd Sul) i o leiaf 21 awr y dydd, bob dydd.

1.8 Cafodd trwydded De Cymru ei dyfarnu gan Ofcom ym mis Mai 2007. Ynghyd â'r cais buddugol gan GCap Media (Xfm South Wales Ltd), daeth saith cais arall i law am y drwydded:

Talk FM South Wales Limited
David FM Limited
Kerrang! Radio Wales Ltd
Original 107 FM Ltd
South Wales Radio Ltd
Variety FM South Wales
UK Media a Radio Wales Ltd

1.9 O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), dim ond os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi'i fodloni y bydd Ofcom yn cael rhoi caniatâd ar gyfer newid Fformat:

*(a) na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*

*b) na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*

*(c) y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;*

*(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu*

*(e) y byddai (i) y gwyriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel y diffiniwyd yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).*

1.10 Hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu ragor o'r meini prawf statudol uchod, efallai y bydd rhesymau (gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na chaiff Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid arfaethedig. Gellir gweld y meini prawf ychwanegol hyn y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/.

1.11 Gan fod y newid a gynigir gan Nation Radio yn effeithio ar ofyniad craidd yr orsaf i fod yn orsaf sy'n chwarae *"mwyafrif o ganeuon roc a chaneuon â gogwydd roc"*, a bod angen aralleirio'r Cymeriad Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn sylweddol, nid ydym o'r farn bod cais Nation Radio yn bodloni maen prawf (a) – na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol. Yn ogystal, nid yw maen prawf (e) yn berthnasol i'r cais hwn. Felly, yn unol ag adran 106ZA o Ddeddf Darlledu 1990, rydym yn ymgynghori ar y cais.

1.12 Wrth ystyried a fodlonir maen prawf (b) (na fyddai'r newid yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol), nid yw gwasanaethau'r BBC na gwasanaethau DAB lleol yn 'cyfrif' fel gwasanaethau radio annibynnol perthnasol. Y gwasanaethau radio annibynnol perthnasol yw'r gorsafoedd cymunedol a'r gorsafoedd masnachol analog lleol hynny sy'n gweithredu yn y rhanbarth – rhestrir y rhain yn Atodiad 6.

1.13 Mae Atodiad 4 yn cynnwys y cais i newid Fformat a gyflwynwyd gan Nation Radio, lle dadleuir na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol ac felly bod maen prawf (a) yn cael ei fodloni, ac y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol, gan fodloni maen prawf (c).

1.14 Rydym yn gofyn am safbwyntiau am y cais, gan roi ystyriaeth benodol i'r meini prawf newid Fformat a nodir yn Adran 106(1A) (b) i (d) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), fel y nodir uchod.

## Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **5pm ddydd Iau 08 Rhagfyr 2016**.

A1.2 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/nation-radio-request-to-change-format/. Rydyn ni hefyd yn darparu dalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet) ar gyfer ymatebion sy'n cael eu hanfon dros e-bost neu bost; a fyddech chi cystal â llenwi hon er mwyn ein helpu i gynnal eich cyfrinachedd, ac mae'n cyflymu ein gwaith. Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych chi'n ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.

A1.3 Os ydy eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i jon.heasman@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 08 Rhagfyr 2016.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.

Nation Radio consultation
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.6 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.7 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A1.8 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Jon Heasman ar 020 7783 4509, neu dros yr e-bost i jon.heasman@ofcom.org.uk

## Cyfrinachedd

A1.9 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddan nhw'n dod i law.

A1.10 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A1.11 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.12 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use

## Y camau nesaf

A1.13 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad.

A1.14 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates/

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.15 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.16 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom

Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601
E-bost steve.gettings@ofcom.org.uk

**Atodiad 2**

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom ydy'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill, felly fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddan nhw'n dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Nation Radio

At (cyswllt yn Ofcom): Jon Heasman

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliadau(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim byd | ☐ | Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ | Sefydliad | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ | Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? | |

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

### DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

**Atodiad 3**

# Cwestiwn yr ymgynghoriad

A3.1 Mae Ofcom yn gofyn am safbwyntiau ar y Cais hwn i Newid Fformat. Yn yr achos hwn caiff unrhyw benderfyniad gan Ofcom ond ei wneud ar ôl rhoi sylw penodol i dri maen prawf penodol (Adran 106(1A) (b) (c) a/neu (d) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

A3.2 Caiff y meini prawf hyn eu nodi ar dudalen 2 y ddogfen ymgynghori hon. Caiff Ofcom ond rhoi caniatâd i newid Fformat os yw'n fodlon mewn perthynas ag o leiaf un o'r meini prawf statudol.

A3.3 Gofynnir i'r ymatebwyr fframio eu safbwyntiau a'u hymatebion gan gyfeirio at y tri maen prawf hyn neu yng nghyd-destun y tri maen prawf hyn.

*Cwestiwn yr ymgynghoriad: A ddylid caniatáu i Nation Radio Limited wneud y newid mae'n ei gynnig i Fformat Nation Radio?*

## Atodiad 4

# Cais i newid fformat gan Nation Radio

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cais:** | 14 Medi 2016 |
| **Enw'r Orsaf:** | Nation Radio |
| **Yr ardal sydd wedi'i thrwyddedu a rhif y drwydded:** | De Cymru AL327 |
| **Deiliad y drwydded:** | Nation Radio Limited |
| **Enw cyswllt:** | Martin Mumford |

## Manylion y cais i newid Fformat

| | |
|---|---|
| **Cymeriad y Gwasanaeth**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch Fformat*** | **Cymeriad Presennol y Gwasanaeth:**<br>**GORSAF GERDDORIAETH SY'N CHWARAE MWYAFRIF O GANEUON ROC A CHANEUON Â GOGWYDD ROC, A CHYNNWYS SYLW I ARTISTIAID LLEOL.** |
| | **Cymeriad newydd arfaethedig y Gwasanaeth:**<br>**GORSAF GERDDORIAETH I GYMRU SY'N CYNNWYS SYLW I ARTISTIAID LLEOL.** |
| **Trefniadau rhannu rhaglenni a/neu drefniadau cydleoli**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch Fformat*** | |
| | **Y trefniadau newydd arfaethedig:** |
| **Oriau wedi'u gwneud yn lleol a/neu fwletinau newyddion lleol**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch Fformat*** | **Rhwymedigaethau cyfredol:**<br>O leiaf 10 awr y dydd yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (mae'n rhaid i hyn gynnwys amser brecwast).<br>O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. |

| | **Y rhwymedigaethau newydd arfaethedig:**<br>O leiaf 21 awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Sul (rhaid cynnwys amser brecwast ac amser brecwast ar benwythnosau) |
|---|---|

Gall deiliad trwydded radio masnachol lleol analog wneud cais i Ofcom am gael newid Fformat yr orsaf. Wrth wneud unrhyw gais, dylid defnyddio'r drefn a ddangosir ar y ffurflen hon, a dylai gyd-fynd â'r gweithdrefnau y mae Ofcom wedi'u cyhoeddi ar gyfer newidiadau i Fformat (ar gael ar ein gwefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/)

O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), dim ond os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi'i fodloni y bydd Ofcom yn cael rhoi caniatâd ar gyfer newid Fformat:

*(a)* *na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b)* *na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*

*(c)* *y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;*

*(d)* *bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu*

*(e)* *y byddai (i) y gwyriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel y diffiniwyd yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).*

Dim ond un o'r pum maen prawf hyn y mae angen ei fodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu'r newid arfaethedig. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu ragor o'r meini prawf statudol, efallai y bydd rhesymau (gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na chaiff Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid arfaethedig. Gellir gweld y meini prawf ychwanegol hyn y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn yn:
http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/ )

Dylai ymgeiswyr nodi bod adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu ei bod yn rhaid ymgynghori ar newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf neu'r olaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid a f*yddai* neu a *allai* newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol ym marn Ofcom, neu nad yw'n berthnasol i darddiad rhaglenni lleol), os ydyw i'w ystyried ymhellach o dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall. #.

Os bydd Ofcom yn cael cais i newid Fformat a'i fod o'r farn *nad* yw maen prawf (a) neu (e) wedi'i fodloni, bydd yn gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ynghylch a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r cais (ac, os yw'n dymuno gwneud hynny, a yw'n dymuno newid ei gyflwyniad neu roi un yn ei le gan gofio ei bod yn rhaid ei gyhoeddi).

**A fyddech cystal â nodi'r maen prawf neu'r meini prawf statudol a nodir yn adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990, a fodlonir yn eich barn chi mewn perthynas â'r cais hwn i newid Fformat, ynghyd â'r rhesymau dros hyn:**

Caiff y newid hwn ei gyflwyno o dan 106 (1A) (a) na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol ac (c), y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu i hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y farchnad radio leol.

Fel gwybodaeth gefndir i'r cais hwn i newid fformat, mae Ofcom wedi cael nifer o gwynion dros amser ynghylch cydymffurfiad fformat Nation Radio o ran darparu cerddoriaeth roc. Er nad oes yr un gŵyn wedi cael ei chadarnhau, mae ymchwiliadau i gwynion wedi cymryd llawer iawn o amser rheoli er mwyn delio â nhw ac maen nhw wedi datgelu natur oddrychol iawn rheoleiddio fformatau ar sail genre cerddoriaeth.

Ar adegau, mae hyn wedi arwain yn anffodus at ddadansoddiad manwl o restri chwarae gyda gohebiaeth rhwng y darlledwr a'r rheoleiddiwr ynghylch pa draciau sydd yn rhai 'roc'.

Er ein bod yn dal yn hyderus bod Nation Radio yn cydymffurfio â'i fformat presennol nid ydym yn credu bod parhau â cherddoriaeth roc fel prif ffon fesur ar gyfer cydymffurfiad fformat yn angenrheidiol nac yn ddefnyddiol wrth ddiffinio'r safle unigryw sydd gan Nation Radio mewn marchnad sy'n esblygu, sy'n gystadleuol ac sy'n llenwi mwy a mwy.

Ers lansio'r ail amlblecs digidol cenedlaethol mae amrywiaeth o wasanaethau newydd ar gael i wrandawyr yn yr ardal gan gynnwys gorsafoedd sydd ag aliniad agos at 'roc' tra mae cystadleuwyr masnachol lleol sydd wedi bodoli ers tro wedi symud eu safle yn y farchnad a'u rhestri chwarae cerddoriaeth yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydyn ni'n credu bod rhaglenni Nation Radio yn wahanol i'r cystadleuwyr masnachol hyn sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o'u rhaglenni'r tu allan i Gymru ac rydyn ni'n ceisio gwreiddio hyn fel ymrwymiad fformat newydd.

Ar gyfer o leiaf 21 awr y dydd rydyn ni'n ymrwymo i ddarparu rhaglenni lleol o ardal drwydded Nation Radio. Mae hyn yn wahanol iawn i nifer o orsafoedd radio masnachol yng Nghymru sydd ag ymrwymiad i gyflawni tua 7 awr o raglenni lleol o ddydd Llun i ddydd Gwener a 4 awr ar benwythnos ac sydd yn cyflawni hynny mewn gwirionedd.

Yn y cyd-destun hwn mae 'lleol' yn golygu y bydd prif gyflwynydd unrhyw raglen sy'n cael ei darlledu yn ystod oriau lleol gorsaf yn gwneud hynny mewn lleoliad yn ardal drwyddedig yr orsaf.

Os cytunir ar y newid hwn nid ydyn ni'n credu y byddai'r gwrandawyr yn sylwi ar wahaniaeth mawr o'r allbwn sy'n cael ei ddarlledu ar hyn o bryd, serch hynny, rydyn ni'n credu y dylai perthynas ddiwylliannol Nation gyda Chymru (hy bod yn 'orsaf ar gyfer Cymru') ynghyd â'r ymrwymiad uwch hwn i ddarparu rhaglenni o'r ardal drwyddedig fod yn bwysig i'r rheoleiddiwr wrth ddefnyddio unrhyw brofion cydymffurfiad fformat yn y dyfodol.

Er mai'r prawf rheoleiddio hawsaf yn y dyfodol fyddai'r ymrwymiad i oriau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol, mae'r berthynas ddiwylliannol â Chymru hefyd yn cael ei dangos mewn nifer o ffyrdd eraill ar yr awyr – cefnogaeth i dimau, digwyddiadau ac elusennau Cenedlaethol, bwletinau newyddion yn rhoi eitemau newyddion o Gymru ar frig yr agenda, rhaglenni arbennig ar gyfer rygbi a phêl-droed Cymru, lleoliad stiwdio a rhaglenni'n cael eu cyflwyno yng Nghymru.

Mae'n cael ei ddangos oddi ar yr awyr hefyd drwy gynnig cyflogaeth a threfnu cynlluniau gan yr orsaf fel Gwobrau Pride of Wales, Gwobrau Chwaraeon a'r Big Welsh Fundraiser i gefnogi Tŷ Hafan.

Am yr holl resymau hyn rydyn ni'n credu y byddai cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y farchnad radio leol yn cael ei chynnal oherwydd byddai gan Nation Radio ofyniad fformat i barhau i fod yn wahanol i wasanaethau radio masnachol cystadleuol sydd eisoes yn rhannau o rwydweithiau'r DU sydd wedi ennill eu plwyf.

**Darparwch unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r newid(iadau) arfaethedig isod. Yn benodol, efallai y bydd yr ymgeisydd yn dymuno amlinellu sut mae'n gweld y newid arfaethedig yn cyd-fynd â pholisi cais am newid Fformat sydd wedi'i gyhoeddi gan Ofcom (http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/ ) a chanllawiau Lleolrwydd Ofcom hefyd, sy'n cynnwys ein polisi cydleoli a rhannu rhaglenni (**http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/localness/).

*Nodiadau*

# Gall Ofcom gymeradwyo newid o dan unrhyw un o feini prawf (b) i (d) heb ymgynghori, neu yn dilyn ymgynghoriad sy'n para llai na 28 diwrnod, os yw Ofcom o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu ragor, yn arwain at oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau deiliad y drwydded. Gall Ofcom hefyd dynnu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynir gan ddeiliad y drwydded at ddibenion ymgynghori.

**Fersiwn 6 – diwygiwyd Ebrill 2010**

**Atodiad 5**

# Fformat Presennol Nation Radio

**Atodiad 6**

# Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yn ardal De Cymru

**Gorsafoedd radio masnachol**

Bridge FM (Pen-y-bont ar Ogwr)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000257ba2bridgefm.htm

Capital FM (Caerdydd a Chasnewydd)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000020ba2capitalfm.htm

Heart (De Cymru)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000261ba5heart.htm

Kiss (Aber Afon Hafren)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000167ba3kiss.htm

Radio Sir Gâr (Sir Gâr)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000289ba4radiocarmarthenshirescarletfm.htm

Swansea Bay Radio (Abertawe)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000306ba4swanseabayradio.htm

Swansea Sound (Abertawe)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000090ba2swanseasound.htm

Smooth Radio (Caerdydd a Chasnewydd)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000019ba5smoothradio.htm

The Wave (Abertawe)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000091ba2thewave.htm

**Gorsafoedd radio cymunedol**

BRFM (Brynmawr, Gwent)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000094ba2radiocardiff.htm

BRO Radio (Y Barri)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000122ba2broradio.htm

GTFM (Pontypridd)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000004ba2gtfmpontypridd.htm

Radio Cardiff
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000094ba2radiocardiff.htm

Radio Tircoed (Pentref Fforest Tircoed, Abertawe)
http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000111ba1radiotircoed.htm